# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN

## HELD AT YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE ON DYDD LLUN, 4 GORFFENNAF 2016 AT 11.00 AM

**YN BRESENNOL:**

| **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** |
|---|---|---|
| P. Downing | J. Newbury | D. G. Sullivan |
| M. Thomas | | |

**Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:**
P. A. Rees

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mike Hawes | Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151 |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Karen Cobb | Cyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**HEFYD YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| N. Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| V. Furniss | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| A. Johnson | Hymans Robertson |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: C. E. Lloyd ac R. C. Stewart

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd P. Downing yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-17.

**(Bu'r Cynghorydd P. Downing yn llywyddu)**

2 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd P. Downing - agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu at y Gronfa Bensiwn.

**NODWYD** bod y Cynghorydd P. Downing wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau yn hyn o beth.

Y Cynghorydd J. Newbury - rwy'n derbyn pensiwn y cyngor a drosglwyddwyd i mi ar ôl i'm gwraig farw - personol.

Y Cynghorydd D. G. Sullivan - agenda yn ei chyfanrwydd - rwy'n derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gynllun Pensiwn Dyfed - personol.

Y Cynghorydd M. Thomas - agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf i a'm gwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**NODWYD** bod y Cynghorydd M. Thomas wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau o ran ei wraig.

3 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

4 **CYFLWYNIAD AR Y CYD YR AWDURDOD (YNGHYD Â CHRONFEYDD PENSIWN CYMREIG ERAILL) I'R ADRAN CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL A THRYSORLYS EI MAWRHYDI AR EI GYNIGION CYFUNO - CYFLWYNIAD GAN HYMANS ROBERTSON, YMGYNGHORWYR I GYMDEITHAS DRYSORYDDION CYMRU.**

Rhoddodd A. Johnson, Hymans Robertson, gyflwyniad ar gyd-argymhelliad yr awdurdod (ynghyd â chronfeydd pensiwn eraill Cymru) i Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Thrysorlys ei Mawrhydi ar eu cynigion cyfuno.

Rhoddodd y cyd-argymhelliad ymatebion ar y meysydd canlynol yn unol â chais gan y Llywodraeth: -

- A: Cronfeydd asedau sy'n cyflawni buddion graddfa.
- B: Llywodraeth a gwneud penderfyniadau cryf.
- C: Costau is a gwerth ardderchog am arian.
- Ch. Gallu gwell i fuddsoddi mewn isadeiledd.

Gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau i gynrychiolydd Hyman Robertson a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol: -

1) Dylid nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Dylid cyflwyno'r cyd-argymhelliad terfynol yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.28 pm

**CADEIRYDD**